**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd   CF99 1SN

20 Tachwedd 2020

Annwyl Mick,

**Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020**

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020.

Nodaf eich sylw ynghylch cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a gynhyrchwyd ar yr adeg y cafodd y llacio dros dro ar Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ei gymeradwyo i gefnogi'r sector mabwysiadu yn ystod y pandemig. Adeg ysgrifennu nid oedd unrhyw ofyniad sefydliadol i gyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Ym mis Gorffennaf 2020 penderfynwyd cyhoeddi pob CRIA o 1 Ionawr 2020. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant bellach wedi'i gyhoeddi ac mae ar gael trwy'r ddolen isod:

https://llyw.cymru/rheoliadau-asiantaethau-mabwysiadu-cymru-2020-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html

Er ein bod yn anelu at gyhoeddi'r holl ddogfennau ategol ar yr un pryd ag y mae'r prif ddogfennau deddfwriaethol yn cael eu gosod gerbron y Senedd, mae maint y ddeddfwriaeth a'r gwaith sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi cael effaith fawr ar y gallu i fodloni amserlenni. O ganlyniad, cyhoeddwyd y darnau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig a'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn gynted â phosibl. Hoffwn gydnabod pa mor gyflym y bu swyddogion yn gweithio i hwyluso'r Rheoliadau hyn i gefnogi mater brys ac anodd a allai fod wedi effeithio'n andwyol ar ddigonedd y lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Nid oedd yn briodol gohirio'r rheoliadau nes bod y dogfennau eraill ar gael gan fod angen sicrhau y gall y broses mabwysiadu a maethu gael ei chynnal mor effeithiol ac effeithlon â phosibl i gefnogi rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn ystod y pandemig. Mae'r holl ddogfennau cysylltiedig wedi'u cyhoeddi ac amgaeaf ddolenni er hwylustod:

1. **Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad:**

https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-10/the-adoption-and-fostering-wales-miscellaneous-amendments-coronavirus-regulations-2020-summary-response.pdf

2. **Asesiad Effaith Integredig**

https://gov.wales/adoption-and-fostering-wales-miscellaneous-amendment-coronavirus-regulations-2020-integrated-impact-html

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir

Julie

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.